

Adolygiad annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021

Gylch gwaith

Cylch gwaith ac amcanion

- Gan gydnabod nad oedd dewis arall ond canslo'r gyfres arholiadau ar gyfer 2020 (TGAU, Uwch Gyfrannol, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'r cymwysterau galwedigaethol cymeradwy yng Nghymru) yn sgil y pandemig iechyd cyhoeddus a'r pryder a'r ansicrwydd yr oedd hynny'n ei greu i ddysgwyr, eu teuluoedd ac i ymarferwyr, dylai'r adolygiad annibynnol hwn ystyried y **prif faterion a gododd o'r trefniadau** a gafodd eu datblygu a'u gweithredu.
- Dylai'r adolygiad ystyried y **sialensiau sydd wedi codi yn sgil y profiad yn 2020 (ac yng nghyd-destun yr ansicrwydd ynghylch Covid yn y dyfodol) a'r sialensiau i ddysgwyr yn nghyfres arholiadau haf 2021.**
- Dylid ystyried y prif wersi sydd wedi codi eleni yn benodol er mwyn darparu **argymhellion ac ystyriaethau ynghylch dull gweithredu posibl i baratoi ar gyfer 2021** sy'n blaenoriaethu anghenion dysgwyr a'u cynnydd, ac yn rhoi sylw i'r angen parhaus i gynnal safonau a hygyrdded y system addysg a'r broses o ddyfarnu cymwysterau.
- Bwriad yr adolygiad hwn yw darparu argymhellion ac ystyriaethau i'r Gweinidog Addysg, gan gydnabod yr amrywiol bartneriaid sy'n gysylltiedig â chefnogi dysgwyr yng Nghymru.

Cwmpas yr adolygiad a'r cwestiynau i'w trafod

Egwyddorion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

- Wrth bennu'r polisi ar gyfer canslo'r arholiadau a datblygu trefniadau wedyn i ddyfarnu graddau i ddysgwyr, mae Llywodraeth Cymru'n blaenoriaethu'r egwyddorion canlynol:
 - a. Galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd yn y dyfodol a chydabod eu gwaith caled drwy ddyfarnu graddau
 - b. Sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig
 - c. Cyflwyno dull cadarn a theg, sy'n deg i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
 - d. Cynnal hyder a hygyrdded yn y system gymwysterau.
- A oedd yr holl bartneriaid cyflenwi yn deall ac yn rhannu'r un blaenoriaethau?
- A roddwyd y pwysoliad cywir iddynt?

Heriau gweithredu

- Beth oedd y materion a'r heriau allweddol wrth weithredu'r trefniadau yn 2020, gan gydnabod y cyfyngiadau a oedd ar bob rhan o'r sector?
- A gafodd y dulliau gweithredu a fabwysiadwyd, a'r dewisiadau eraill na fabwysiadwyd, eu profi'n gadarn a'u gwerthuso yn erbyn y cyfarwyddiadau polisi arfaethedig?
- A gafodd y dulliau a fabwysiadwyd, a'r dewisiadau amgen hynny nas mabwysiadwyd, eu profi'n drylwyr a'u gwerthuso yn erbyn meini prawf cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb er mwyn sicrhau tegwch?

Rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd sefydliadol

- A oes eglurder yn y gwahanol gyfrifoldebau yn y sector addysg yng Nghymru o ran cefnogi'r gwaith o ddarparu cymwysterau?
- A gafodd pob rôl wrth ddyfarnu graddau eleni eu rhoi ar waith yn briodol, eu deall a'u cyfathrebu'n dda gan y partion dan sylw?
- A roddwyd y pwyslais priodol ar y rhyngddibyniaethau ledled y Deyrnas Unedig, ac effaith gwahanol ddulliau a weithredwyd mewn mannau eraill o'r DU ar Gymru wrth ystyried a gweithredu trefniadau ar gyfer 2020?

Tryloywder a llais y dysgwyr

- A oedd digon o ymgysylltu, cyfathrebu a thryloywder â rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflawni'r trefniadau yn 2020 ac a oedd llais y dysgwyr wedi'i gynrychioli'n briodol?

Heriau ac opsiynau ar gyfer 2021

- O ystyried yr heriau ar gyfer carfan 2020/21 o ran cynnydd a chyflawniad, a sicrhau tegwch a hygyrdd yng nghyd-destun system gymwysterau ehangach y Deyrnas Unedig ac i ddysgwyr unigol, pa ddulliau asesu y gellid eu hystyried ar gyfer 2021 a fyddai'n helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a nodwyd uchod?

Wrth ystyried yr uchod, gwahoddir yr Adolygiad yn arbennig i ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth a ddysgwyd o weithredu'r broses safoni yn 2020, a beth y dylid ei ystyried wrth gytuno ar y meini prawf neu'r egwyddorion ar gyfer unrhyw broses safoni yn 2021?
- Sut y gellir cydnabod a blaenoriaethu llais dysgwyr a'u lles mewn unrhyw ddull gweithredu yn y dyfodol?

- A oes cyfle i gael mwy o gyfraniad asesu athrawon a chanolfannau, sy'n gymesur â'r angen i flaenoriaethu amser addysgu a dysgu?
- A oes model cymedroli posibl ar draws clystyrau/canolfannau, sydd wedi'i ategu gan ddarpariaeth dysgu proffesiynol, ac a allai ymarferwyr, Estyn, awdurdodau lleol neu gonsortia addysg rhanbarthol chwarae fwy o ran wrth sicrhau dull gweithredu cyson rhwng ysgolion?
- Pa rôl ddylai fod ar gyfer unrhyw broses apelio, a sut y gellid ystyried y cyfrifoldebau o lefel yr ysgol hyd at lefel reoleiddio mewn unrhyw broses yn y dyfodol?
- Pa ddadansoddiad pellach sydd ei angen i ddeall effaith digwyddiadau'r haf hwn ar garfanau'r blynyddoedd dilynol?

Meysydd eraill i'w hystyried

- Gall yr adolygiad hefyd nodi meysydd i'w hystyried a'u harchwilio ymhellach wrth i ni ddechrau symud i'r cwricwlwm newydd. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, feysydd yn ymwneud â: dull ymarferwyr o asesu a barn broffesiynol, rôl systemau atebolrwydd a'r ymddygiad y maent yn ei yrru; a rôl a phatrwm cymwysterau yn y dyfodol.
- Gall yr adolygiad hefyd ystyried yr hyn y gallwn ei ddysgu o ddulliau rhyngwladol o asesu a dyfarnu cymwysterau.

Gweithredu'r adolygiad a'r amseru

- Bydd y Cadeirydd yn ystyried aelodaeth y tîm adolygu a bydd yn dod â phartneriaid a rhanddeiliaid i mewn i ddarparu cyfraniadau a syniadau. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n darparu'r ysgrifenyddiaeth.
- O ystyried yr angen dybryd i roi mesurau ar waith i sicrhau bod cyfres arholiadau 2021 yn cael ei chyflawni a datblygu trefniadau wrth gefn rhag ofn y bydd tarfu pellach, dylai'r adolygiad adrodd mewn dau gam:
 - byddadroddiad interim, sy'n cynnwys canfyddiadau a ffactorau allweddol i'w trafod, yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn diwedd mis Hydref 2020;
 - bydd adroddiad terfynol gydag argymhellion llawn yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn canol mis Rhagfyr 2020.